

# Pennod 1: Crynodeb

## CYFLWYNIAD

- 1.1 Gwahoddwyd Comisiwn y Gyfraith gan Lywodraeth Cymru i ystyried codeiddio cyfraith cynllunio yng Nghymru, a gwneud argymhellion ar gyfer diwygiadau technegol. Ym mis Tachwedd 2017 cyhoeddwyd Papur Ymgynghori gennym, a oedd yn cynnwys dros 180 o gynigion dros dro a chwestiynau'r ymgynghoriad. Yna, cynhaliwyd rhaglen o gyfarfodydd a digwyddiadau yn ystod y tri mis dilynol; a daeth dros 160 o ymatebion ysgrifenedig i law. Rydym yn ddiolchgar i bawb a dderbyniodd ein gwahoddiad i gyflwyno sylwadau.
- 1.2 Yng ngoleuni'r hyn a glywsom yn y cyfarfodydd hynny a'r ymatebion ysgrifenedig, adolygwyd ein cynigion, ac mae'r Adroddiad hwn yn amlinellu ein hargymhellion terfynol. Fel y disgwyliid, mewn llawer o achosion, mae'r argymhellion hyn yn adlewyrchu'r cynigion dros dro yn y Papur Ymgynghori; ond mewn sawl achos rydym wedi tynnu cynigion yn ôl neu wedi'u diwygio, ac weithiau rydym wedi ychwanegu argymhellion newydd, yn seiliedig ar ein hymchwil ac ymatebion ymgynghoreion.
- 1.3 Mae'r crynodeb rhagarweiniol hwn yn rhoi amlinelliad bras o'r Adroddiad. Mae ar gael, ynghyd â'r Adroddiad cyfan, a phenodau unigol ohono (yn y ddwy iaith) ar wefan y Comisiwn [www.lawcom.gov.uk/planning-law-in-wales](http://www.lawcom.gov.uk/planning-law-in-wales).
- 1.4 Mae Rhan Un o'r Adroddiad yn ymdrin ag egwyddorion cyffredinol. Mae Pennod Dau yn agor drwy roi amlinelliad bras o'r prosiect hyd yma – o'r gwahoddiad cychwynnol i'r Comisiwn gan Lywodraeth Cymru, drwy'r Papur Cwmpasu a gyhoeddwyd yn 2016, i'r Papur Ymgynghori yn 2017 a'r Adroddiad Terfynol erbyn hyn yn 2018 (Pennod Un). Mae Pennod Tri yn disgrifio'r ymgynghoriad. Cyflwynwyd nifer o ymatebion cyffredinol, a oedd yn ymwneud â'r ymarfer codeiddio yn ei gyfanrwydd, a grynhoir ym Mhennod Pedwar.
- 1.5 Yna, mae'r pedair pennod ar ddeg yn Rhan Dau o'r Adroddiad yn crynhoi'r ymatebion i'n cynigion yn y Papur Ymgynghori sy'n ymwneud â phob un o'r prif feysydd, ac yn nodi ein hargymhellion ynghylch y ffordd orau o gyflwyno'r gyfraith ac, mewn rhai ffyrdd, ei gwella, er budd pawb sy'n ei defnyddio. Rydym yn rhestru ein hargymhellion ar ddiwedd Rhan Dau.

## Terminoleg

- 1.6 Rydym wedi gwneud argymhelliad, mewn sawl man drwy'r bennod gyfan hon ac yng ngweddill yr Adroddiad hwn, y dylid diddymu, hepgor neu ddiwygio rhyw ddarpariaeth statudol neu'i gilydd sydd mewn grym ar hyn o bryd yng Nghymru ac yn Lloegr. Yr hyn a olygir gan ddatganiad o'r fath yw na ddylai'r ddarpariaeth dan sylw fod yn gymwys yng Nghymru mwyach neu y dylai fod yn gymwys ar ffurf ddiwygiedig; ac y dylai diwygiad priodol gael ei wneud i'r ddarpariaeth bresennol er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i weithredu yn Lloegr yn yr un ffordd ag y gwna ar hyn o bryd. Gall darpariaethau sydd ond yn gymwys i Gymru ar hyn o bryd, ac nad oes eu hangen mwyach, gael eu diddymu yn yr ystyr ffurfiol (hynny yw, eu dileu o'r llyfr statud).

## Cydnabyddiaethau

- 1.7 Mae'r aelodau canlynol o'r Tîm Cyfraith Gyhoeddus wedi cyfrannu at y prosiect hwn ar wahanol adegau: David Connolly a Henni Ouahes (rheolwyr tîm); Beth Gascoyne a Dr Charles Mynors (cyfreithwyr y tîm); ac Anjoli Foster, Gayatri Parthasarathi, Thomas Jones, Ffion Bevan ac Alex Shattock (cynorthwywyr ymchwil).
- 1.8 Rydym yn ddiolchgar iawn am y cymorth helaeth a roddwyd i ni gan nifer o swyddogion Llywodraeth Cymru drwy gydol y prosiect hwn, a hefyd gan lawer o unigolion eraill rydym wedi rhannu syniadau â hwy. Fodd bynnag, pwysleiswn mai barn y Comisiwn a geir yn yr Adroddiad Terfynol, ac nid barn unrhyw un o'r rhai sydd wedi ein cynorthwyo.

## RHAN UN: EGWYDDORION CYFFREDINOL

### PENNOD DAU: TUAG AT GOD CYNLLUNIO NEWYDD I GYMRU

#### Cefndir

- 1.9 Y darn arwyddocaol cyntaf o ddeddfwriaeth gynllunio yn y DU oedd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947, a oedd yn gymwys yn unffurf yng Nghymru a Lloegr. Fe'i dilynwyd gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1962 a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971 (ill dau'n fesurau cydgrynhoi); diwygiwyd pob un sawl gwaith. Y mesurau cydgrynhoi mwyaf diweddar oedd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990, a ymgorfforodd rai mân newidiadau a argymhellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith.
- 1.10 Mae Deddfau 1990 eu hunain wedi cael eu diwygio neu eu hatodi, ar nifer o achlysuron – yn enwedig gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, Deddf yr Amgylchedd 1995, a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Ers 2004, mae Deddfau cynllunio a basiwyd gan Senedd San Steffan wedi bod yn gymwys i Loegr yn unig ar y cyfan, ond nid yn gyfan gwbl.
- 1.11 Dechreuodd polisi cynllunio cenedlaethol unigryw ymddangos yng Nghymru o oddeutu 1996, ac is-ddeddfwriaeth ar wahân o ddiwedd y 1990au. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a ddiwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017, mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â phob mater cynllunio bellach. Canlyniadau cyntaf hynny oedd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

#### Cynnwys Comisiwn y Gyfraith

- 1.12 Yn erbyn y cefndir hwn, gwahoddwyd Comisiwn y Gyfraith i adolygu'r gyfraith sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref yng Nghymru, a gwneud argymhellion i foderneiddio a symleiddio'r gyfraith. Arweiniodd hyn at baratoi Papur Cwmpasu, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2016 – ochr yn ochr ag adroddiad terfynol y Comisiwn ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru.<sup>1</sup> Canolbwyntiodd y

---

<sup>1</sup> *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru*, Comisiwn y Gyfraith Rhif 366.

Papur Cwmpasu ar gwmpas yr ymarfer, a disgrifiodd ein hymagwedd tuag at gydgrynhoi a diwygio technegol.

- 1.13 Yn dilyn ymatebion gan ymgynghoreion i'r Papur Cwmpasu, ac yng ngoleuni cyswllt parhaus â Llywodraeth Cymru a rhagor o ymchwil, cyhoeddwyd Papur Ymgynghori gennym, sef Cyfraith Cynllunio yng Nghymru, ym mis Tachwedd 2017, yn nodi 186 o ddiwygiadau technegol posibl, ar ffurf Cwestiynau Ymgynghoriad. Mae'r Adroddiad Terfynol hwn yn adeiladu ar yr ymatebion a gawsom i'r Papur Ymgynghori, ac yn gwneud nifer debyg o argymhellion terfynol at sylw Llywodraeth Cymru.

## **PENNOD TRI: YR YMGYNGHORIAD**

### **Y rhai y gwnaethom gyfarfod â hwy**

- 1.14 Ar ôl cyhoeddi'r Papur Ymgynghori, cyfarfuom ag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Aethom i gyfarfodydd a drefnwyd gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, Cymorth Cynllunio Cymru, a'r Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref. Cynhaliwyd cyfarfodydd defnyddiol iawn gennym â phob un o'r tri grŵp rhanbarthol o Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru.
- 1.15 Rhoddwyd cyflwyniadau gennym hefyd mewn cyfarfodydd a drefnwyd gan amrywiol grwpiau – gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cymdeithas y Cyfreithwyr, dwy siambwr o fargyfreithwyr sy'n arbenigo ym maes cyfraith cynllunio, y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, Cymdeithas y Landlordiaid Preswyl, Cartrefi Cymunedol Cymru, Grŵp Trawsbleidiol y Cynulliad Cenedlaethol ar Dai, y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol, ac Un Llais Cymru.
- 1.16 A chyfarfuom â chynrychiolwyr amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru, Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru, y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol, Coed Cadw, a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.

### **Yr ymateb a gawsom**

- 1.17 Cawsom 165 o ymatebion ysgrifenedig gan amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a thref, yr Arolygiaeth Gynllunio, datblygwyr, perchenogion tir, sefydliadau yn y trydydd sector, a chyrrff proffesiynol – gweler Atodiad A i weld rhestr gyflawn.
- 1.18 Roedd yr ymatebion a gawsom yn cefnogi ein cynigion ar y cyfan. Roedd rhai yn boblogaidd gan bron bawb. Ond denodd nifer fach (er enghraifft, y cwestiynau ynglŷn ag uno cydsyniad adeilad rhestredig a chaniatâd cynllunio o bosibl, a'r rhai a oedd yn ymwneud â chaniatâd cynllunio amlinellol) nifer fawr o ymatebion, yn bennaf oddi wrth y rhai sydd â diddordeb arbenigol yn y pwnc dan sylw, a mynegwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau.

## **PENNOD PEDWAR: YMATEBION CYFFREDINOL I'R PAPUR YMGYNGHORI**

- 1.19 Yn y Bennod hon, amlinellwn yr ymatebion cyffredinol a gawsom ynghylch yr ymarfer codeiddio yn ei gyfanrwydd. Ystyrir yr ymatebion manylach ynghylch pynciau penodol yn y penodau diweddarach.
- 1.20 Mynegodd sawl rhanddeiliad bryderon ynglŷn â diwygio er mwyn diwygio (ar hyd y llinellau “os nad oes dim byd yn bod, paid â'i newid”), yn gyffredinol ac mewn perthynas â chynigion penodol. Fodd bynnag, cytunodd y mwyafrif llethol o ymgylgoreion fod codeiddio mewn egwyddor yn ddymunol, gyda chryn gefnogaeth dros symleiddio a chydgrynhoi'r ddeddfwriaeth.
- 1.21 Mynegodd rhai rhanddeiliaid o grwpiau diddordeb arbenigol (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â hawliau tramwy, a mwynau) siom nad oedd eu maes diddordeb penodol hwy o fewn cwmpas ein prosiect.
- 1.22 Mynegodd llawer o randdeiliaid bryderon ynglŷn ag agweddau ymarferol ar God cynllunio – yr hyn y dylai ei gynnwys (yn enwedig p'un a ddylid cynnwys canllawiau), sut y caiff ei gyflwyno a'i ddiweddarau, a sut y gellir ei wneud mor hawdd i'w ddefnyddio â phosibl. Rydym yn cytuno bod y materion hyn yn hollbwysig er mwyn i'r Cod weithio'n effeithiol.

## **RHAN DAU: PYNCIAU PENODOL**

*Mae'r cyfeiriadau mewn bracedi sgwâr yng ngweddill y Crynodeb hwn yn cyfeirio at y prif Argymhellion yng ngweddill yr Adroddiad. Ceir rhestr lawn o'n hargymhellion yn Atodiad B.*

## **PENNOD PUMP: DARPARIAETHAU RHAGARWEINIOL**

### **Egwyddorion sy'n sail i'r Cod Cynllunio**

- 1.23 Yn gyntaf, ystyriwn ddiben statudol y system gynllunio, a'r dyletswyddau a ddylai lywio cyrff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau o dan y Cod Cynllunio.
- 1.24 Mae'r ddyletswydd i roi sylw i'r cynllun datblygu, i'r graddau y mae'n berthnasol i'r mater dan sylw, yn gymwys ar hyn o bryd i benderfynu ar geisiadau ac apeliadau cynllunio (o dan adrannau 70 a 79), ac i lawer o swyddogaethau eraill o dan y Deddfau cynllunio – ond nid pob un o bell ffordd. Ac mae'r ddyletswydd honno, lle y bo'n gymwys, o'r pwys mwyaf. Rydym yn argymhell y dylai'r ddyletswydd gael ei hestyn i fod yn gymwys yn benodol i gorff cyhoeddus wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau o dan y Cod – heblaw'r rhai hynny sy'n ymwneud â llunio'r cynllun datblygu, penderfynu ar geisiadau am dystysgrifau cyfreithlondeb, a gwneud is-ddeddfwriaeth. **[5-1]**.
- 1.25 Mae dyletswydd gyffredinol ar bob corff cyhoeddus wrth arfer ei swyddogaethau i roi sylw i bob mater sy'n berthnasol, ac anwybyddu pob un sy'n amherthnasol. Ond mae Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i'r rhai sy'n arfer swyddogaethau penodol o dan y Deddfau cynllunio roi sylw i bob ystyriaeth berthnasol arall. Yn ein barn ni, ni fyddai'n fuddiol ceisio diffinio'r ymadrodd hwnnw,

ond rydym yn argymhell y byddai'n fuddiol pe bai'r ddyletswydd yn cael ei chymhwyso'n benodol at arfer swyddogaethau gan awdurdodau cynllunio, paneli cynllunio strategol a Gweinidogion Cymru o dan y Cod. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r gair "relevant" gael ei roi yn lle "material" yn y fersiwn Saesneg, yn unol â defnydd modern. **[5-2; 5-3]**

- 1.26 Mae'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig yn gosod dyletswydd ar y rhai sy'n penderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio a chydysyniad adeilad rhestredig i roi sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod adeiladau rhestredig, a rhoi sylw i ddymunoldeb gwarchod neu wella ardaloedd cadwraeth. Rydym yn argymhell y dylai fod gofyniad ar unrhyw gorff cyhoeddus sy'n arfer unrhyw swyddogaeth mewn perthynas ag unrhyw ased hanesyddol (gan gynnwys heneb gofrestredig a safle treftadaeth y byd) i roi sylw i ddymunoldeb gwarchod neu wella'r ased, ei nodweddion a'i leoliad, ac ar unrhyw gorff sy'n gwneud penderfyniadau ac sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf cynllunio i roi sylw arbennig i'r cyfryw faterion. **[5-4]**
- 1.27 Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddyletswyddau i roi sylw i ystyriaethau sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg, ond dim ond mewn perthynas ag arfarnu cynlluniau datblygu drafft a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Rydym yn argymhell y dylai ystyriaethau o'r fath fod yn gymwys mewn perthynas ag arfer unrhyw swyddogaethau gan awdurdodau cynllunio, paneli cynllunio strategol a Gweinidogion Cymru o dan y Cod, i'r graddau y mae'n berthnasol i arfer y swyddogaeth honno, drwy ei chynnwys yn benodol fel ystyriaeth berthnasol – unwaith eto, ac eithrio mewn perthynas â llunio'r cynllun datblygu a phenderfynu ar geisiadau am dystysgrifau. **[5-5]**
- 1.28 Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio roi sylw i bolisïau Llywodraeth Cymru wrth baratoi cynllun datblygu lleol. Ond nid yw polisïau o'r fath yn cael eu crybwyll o gwbl yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, er eu bod yn ffactor mawr mewn gwirionedd yn y rhan fwyaf o benderfyniadau cynllunio, os nad pob un. Felly, rydym yn argymhell y dylent hwythau hefyd gael eu cynnwys yn benodol yn y rhestr o ystyriaethau perthnasol i'w hystyried gan awdurdodau cynllunio, paneli cynllunio strategol a Gweinidogion Cymru. **[5-6]**
- 1.29 Cyflwynodd adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddyletswydd i gyrrff cyhoeddus sy'n arfer rhai swyddogaethau o dan y Deddfau cynllunio – ond, unwaith eto, nid pob un ohonynt – i wneud hynny fel rhan o'u dyletswydd i ymgymryd â datblygu cynaliadwy o dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Rydym yn nodi bod y ddyletswydd gyffredinol o dan adran 3 o'r Ddeddf Llesiant yn gymwys i bob swyddogaeth gynllunio; ac felly rydym yn argymhell na fydd angen ailddatgan y ddyletswydd fwy cyfyngedig a osodir ar hyn o bryd gan adran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. **[5-7]**
- 1.30 Yng ngoleuni'r ystyriaethau uchod, rydym yn argymhell nad oes angen i'r Bil gynnwys darpariaeth statudol ynghylch diben cyffredinol y system gynllunio. **[5-10]**

### **Gweinyddu'r system gynllunio**

- 1.31 Rydym yn argymhell y dylid cyfeirio at bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru i gyflawni gwahanol swyddogaethau mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-

ddeddfwriaeth fel “arolygwyr” yn hytrach na “personau” er mwyn cydymffurfio â’r arfer presennol. [5-11]

- 1.32 Nodwn nad oes unrhyw gorff heblaw awdurdod lleol neu awdurdod parc cenedlaethol erioed wedi cael ei ddynodi’n “awdurdod cynllunio lleol”. Yn unol â hynny, rydym yn argymhell nad oes angen cynnwys pwerau yn y Bil i ddynodi awdurdodau ardaloedd menter, corfforaethau datblygu trefol, ymddiriedolaethau gweithredu tai na chorfforaethau datblygu tref newydd yn awdurdodau cynllunio. **[5-12]**
- 1.33 Rydym hefyd yn argymhell, yng ngoleuni system unedol llywodraeth leol yng Nghymru, y dylid defnyddio’r term symlach “awdurdod cynllunio” yn lle “awdurdod cynllunio lleol” ac “awdurdod cynllunio mwynau”. **[5-13]**

## **PENNOD CHWECH: LLUNIO’R CYNLLUN DATBLYGU**

### **Y cynllun datblygu**

- 1.34 Mae Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, a ddiwygiwyd yn sylweddol gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ymwneud â pharatoi’r gwahanol elfennau o’r cynllun datblygu yng Nghymru. Unwaith y bydd y diwygiadau hynny wedi cael eu dwyn i rym yn llawn, bydd y “cynllun datblygu” yn cynnwys y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, y cynllun datblygu strategol a’r cynllun datblygu lleol.
- 1.35 Mae’r diwygiadau i’r ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol yn rhai diweddar, ac nid ydynt wedi cael eu profi’n ymarferol eto. Felly, rydym yn argymhell y dylid, yn syml, ailddatgan y darpariaethau yn Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ar hyn o bryd, yn y Bil. **[6-1]**
- 1.36 Mae’r broses o lunio pob elfen o’r cynllun datblygu yn cynnwys asesiad o gynaliadwyedd. Hefyd, mae’n rhaid cynnal asesiad amgylcheddol o bob elfen, yn unol â’r rheoliadau sy’n rhoi cyfarwyddeb yr UE ar asesiadau amgylcheddol cynaliadwy ar waith. Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi mai’r ffordd orau o fodloni gofynion y Rheoliadau AAS yw drwy eu hymgorffori yn y broses o asesu cynaliadwyedd. Yn y Papur Ymgynghori, gwahoddwyd sylwadau ar yr angen i’r broses AAS fod yn ofyniad ar wahân ochr yn ochr â’r gofyniad ar gyfer asesu cynaliadwyedd. Yng ngoleuni’r ymatebion a gyflwynwyd, rydym yn argymhell y dylid cadw’r broses AAS; ond y dylai’r canllawiau ar weithredu’r gofyniad ynglŷn ag asesu cynaliadwyedd gael eu drafftio er mwyn lleihau’r baich i’r eithaf yn ymarferol. **[6-3]**

### **Malltod cynllunio**

- 1.37 Rydym yn argymhell y dylai’r darpariaethau statudol sy’n ymwneud â hysbysiadau malltod (ym Mhennod 2 o Ran 6 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio ar eu ffurf bresennol fwy neu lai. **[6-5]**

## PENNOD SAITH: YR ANGEN AM GAIS CYNLLUNIO

### Diffiniad o “datblygu”

- 1.38 Mae darpariaethau adran 55 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n rhoi diffiniad estynedig o “datblygu” – y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer yn gyffredinol – wrth wraidd y system gynllunio.
- 1.39 Mae'r gyfraith ynglŷn â'r angen i gael caniatâd cynllunio i ddymchwel yn ddrwgenwog am fod yn gymhleth. Rydym yn argymhell y gellid ei symleiddio drwy hepgor pŵer Gweinidogion Cymru i eithrio mathau penodol o ddymchwel o'r diffiniad o 'datblygu' gan gyflawni'r un canlyniad drwy ddefnyddio'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir). **[7-1]**
- 1.40 Mae gweithrediadau adeiladu fel arfer wedi'u heithrio rhag yr angen i gael caniatâd cynllunio, ac eithrio am waith i greu man newydd o dan y ddaear, a gwaith i greu man ychwanegol sylweddol mewn siopau manwerthu. Rydym yn argymhell y gellid symleiddio'r gyfraith drwy gyflwyno darpariaeth unigol i'r perwyl y byddai unrhyw waith i gynyddu arwynebedd adeilad, gwaith o dan y ddaear neu fel arall, bob amser yn ddatblygiad gyda'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) yn darparu ar gyfer yr achosion lle y byddai gwaith o'r fath yn cael caniatâd yn awtomatig. **[7-2]**
- 1.41 Nid yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cynnwys diffiniad o'r term “engineering operations”. Awgrymwyd yn y Papur Ymgynghori y gallai fod yn briodol cynnwys un; ond yng ngoleuni'r ymatebion a gyflwynwyd, nid ydym wedi mynd ar drywydd hynny. **[7-3]**
- 1.42 Mae Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu ar hyn o bryd fod newid defnydd adeilad (neu ran o adeilad) o un annedd i ddwy annedd yn ddatblygiad y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer; ond mae'r sefyllfa yn llai eglur pan fydd newid i'r cyfeiriad arall. Rydym yn argymhell y dylai unrhyw newid yn nifer yr anheddau mewn adeilad gael ei gategoreiddio'n newid defnydd perthnasol, ac felly'n ddatblygiad. **[7-5]**
- 1.43 Mae eithriadau eraill o'r diffiniad o ddatblygu, sydd wedi bod yn y Ddeddf ers blynyddoedd lawer; ni wnaethom unrhyw gynigion i newid y rhain. Yn ein barn ni, y ffordd orau o ddarparu unrhyw eithriadau newydd yw drwy'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir), yn hytrach na thrwy ddarpariaethau yn y Ddeddf.

### Dulliau diangen o roi caniatâd cynllunio

- 1.44 Mae'r Ddeddf yn darparu y gall cynllun ardal fenter roi caniatâd cynllunio; ond nid yw cynllun o'r fath wedi cael ei greu yng Nghymru ers dros 30 mlynedd. Ni fu fawr ddim defnydd o ardaloedd cynllunio syml, a grewyd yn 1982, a dim defnydd o gwbl yng Nghymru yn ôl pob golwg. Yn ein barn ni, mae'r ddwy weithdrefn yn ddiangen mwyach, yn bennaf oherwydd bodolaeth gorchymynion datblygu lleol, ac rydym yn argymhell y dylid eu diddymu. **[7-9, 7-10]**

## Tystysgrifau cyfreithlondeb

- 1.45 Dylai fod modd eithaf hwylus i berchenogion tir gadarnhau beth y gellid ei wneud yn gyfreithlon i'w heiddo. Mae gweithdrefn yn bodoli sy'n galluogi unrhyw un i gael tystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad sy'n bodoli (neu arfaethedig). Rydym yn argymhell y dylid cynnwys y darpariaethau statudol sy'n ymwneud â thystysgrifau o'r fath ochr yn ochr â'r rhai sy'n ymwneud â'r angen i gael caniatâd cynllunio – fel y buont cyn 1991 – yn hytrach na bod yn gysylltiedig â gorfodi. **[7-11]**
- 1.46 Yn y Papur Ymgynghori, cynigiwyd gennym y dylid tybio bod cais am ganiatâd cynllunio yn cynnwys cais am dystysgrif o'r fath mewn perthynas â'r datblygiad sy'n destun y cais yn awtomatig. Yng ngoleuni'r ymatebion a gawsom, rydym wedi penderfynu peidio â mynd ar drywydd y syniad hwnnw. **[7-12]**

## PENNOD WYTH: CEISIADAU I'R AWDURDOD CYNLLUNIO

### Ceisio caniatâd cynllunio

- 1.47 Ar hyn o bryd, gellir ceisio caniatâd cynllunio mewn tair ffordd. Yn gyntaf, gellir cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio llawn i ymgymryd â datblygiad. Gall caniatâd o'r fath gael ei roi yn ddarostyngedig i amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i faterion penodol gael eu cymeradwyo cyn bod y datblygiad yn dechrau. Yn ail, gellir ceisio a rhoi caniatâd ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau. Yn drydydd, gellir gwneud cais am ganiatâd amlinellol, gan gadw rhai materion penodol i'w cymeradwyo'n ddiweddarach.
- 1.48 Yn y Papur Ymgynghori, awgrymwyd y byddai'n symlach diddymu caniatâd cynllunio amlinellol, a chyflwyno un weithdrefn lle mae angen i unrhyw un sy'n cynnig ymgymryd â datblygiad nas caniateir gan orchymyn datblygu – neu sy'n ceisio awdurdodi datblygiad sydd eisoes wedi'i gwblhau – wneud cais cynllunio, a chyflwyno digon o ddeunydd i ddisgrifio'r datblygiad; byddai hyn yn dileu'r cysyniad o "caniatâd cynllunio amlinellol" i bob diben. Yng ngoleuni'r pryder a fynegwyd gan nifer o ymgynghoreion ynghylch effaith newid o'r fath ar hyder buddsoddwyr, rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'n cynnig dros dro; ond rydym yn argymhell y dylid ailstrwythuro'r ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn iddi fod yn fwy eglur. **[8-1]**
- 1.49 Mae'n bwysig bod pob cais cynllunio yn cael ei ategu gan ddigon o ddeunydd i alluogi'r awdurdod cynllunio a phartion eraill â diddordeb i wybod beth yn union sy'n cael ei gynnig. Lle yr ystyrir bod y deunydd a gyflwynwyd ar y cyd â'r cais yn annigonol, gall yr awdurdod gyflwyno hysbysiad i'r ymgeisydd fod y cais yn annilys – y mae hawl apelio yn ei erbyn. Yng ngoleuni'r ddarpariaeth honno, yn ein barn ni, nid yw adran 327A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – sy'n darparu na chaniateir i awdurdod ystyried cais o'r fath – yn fuddiol, ac rydym yn argymhell na ddylid ei hailddatgan yn y Bil newydd. **[8-2]**

### Penderfynu ar geisiadau cynllunio

- 1.50 O dan adran 70A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, mae gan awdurdod cynllunio bŵer i wrthod cais lle mae'r ymgeisydd yn ceisio llethu'r awdurdod drwy gyflwyno ceisiadau tebyg dro ar ôl tro. Yn ein barn ni, dylai'r fersiwn ddiwygiedig o adran 70A, a gyflwynwyd gan adran 43 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004,



gael ei dwyn i rym yng Nghymru. Ond ni welwn unrhyw ddiben i adran 70B, sy'n atal llwybr deuol – arfer ac iddo sawl mantais ymarferol i bob golwg. Rydym yn argymhell yn unol â hynny. **[8-5, 8-6]**

- 1.51 Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i awdurdod cynllunio baratoi cynllun cynnwys y gymuned, sy'n pennu'r rhai yr ymgynghorir â hwy wrth lunio'r cynllun datblygu. Rydym yn argymhell y dylai dyletswydd debyg fod yn gymwys i benderfynu ar y rhai y dylid ymgynghori â hwy wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio. **[8-7]**

### Amodau a atodir i ganiatâd cynllunio

- 1.52 Rydym yn argymhell y dylai "amodau" gael eu diffinio i gynnwys "cyfyngiadau", gan ddileu'r gwahaniaeth rhwng y ddau derm. **[8-9]**
- 1.53 Mae'r prawf ar gyfer dilysrwydd amod ar hyn o bryd fel y'i hesbonnir gan Dŷ'r Arglwyddi yn *Newbury DC v Secretary of State* [1981], ac yr ymhelaethir arno yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Rydym yn argymhell y dylai hyn gael ei gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol. Rydym hefyd yn argymhell y dylai fod hawl i weld amodau drafft a gynigir gan yr awdurdod cynllunio. **[8-10]**
- 1.54 Nodwyd yn y Papur Ymgynghori y byddai'n bosibl cynnwys pŵer penodol yn y Bil i osod mathau penodol o amodau. Ar ôl ailystyried, rydym yn argymhell mai dim ond pan fo angen awdurdod statudol penodol y dylid cynnwys darpariaeth o'r fath. Dylai cyngor ynglŷn â mathau penodol o amodau fel arall yn gyffredinol fod mewn canllawiau – er enghraifft amodau *Grampian*.<sup>2</sup> **[8-11, 8-12, 8-15, 8-16 ac 8-18]**
- 1.55 Mae ansicrwydd ar hyn o bryd ynglŷn â statws cyfreithiol amodau cyn cychwyn – hynny yw, amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i rywbeth gael ei wneud cyn dechrau'r datblygiad. Awgrymwyd gennym y gallai fod yn ddefnyddiol i awdurdodau gael pŵer (ond nid dyletswydd) i gategoreiddio amodau penodol fel "cynsail gwir amodau", sy'n mynd at wraidd y caniatâd, fel y byddai methiant i gydymffurfio â hwy yn golygu y byddai dechrau unrhyw ddatblygiad yn anghyfreithlon. Byddai categoraiddio o'r fath yn amodol ar hawl apelio. Ni chefnogwyd hyn gan ymgynghoreion, a oedd o'r farn y byddai'r weithdrefn a awgrymwyd yn fiwrocraidd ac yn feichus. Ar ôl ailystyried, rydym yn argymhell yn ei erbyn. **[8-13]**
- 1.56 Ond argymhellwyd hefyd y dylai fod modd i ddatblygwr wneud cais am dystysgrif y cydymffurfiwyd â phob un o'r amodau cyn cychwyn. A phan fo datblygiad wedi dechrau yn groes i amod o'r fath, dylid tybio bod y caniatâd a fyddai fel arall wedi'i awdurdodi wedi'i roi heb yr amodau dan sylw, fel y gall yr amodau eraill ddal mewn bodolaeth ac yn orfodadwy. **[8-13]**

### Cymeradwyo manylion sy'n ofynnol o dan yr amodau

- 1.57 Mewn rhai achosion, mae amodau a atodir i ganiatâd cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i faterion penodol gael eu cymeradwyo cyn dechrau datblygiad. Nid yw'r

---

<sup>2</sup> Amod *Grampian* yw un sy'n atal datblygiad rhag dechrau – neu, o bosibl, rhag cael ei feddiannu – nes bod rhyw ddigwyddiad arall wedi digwydd (er enghraifft, ni ellir codi na meddiannu datblygiad tai newydd nes bod mynediad i'r briffordd wedi'i wella).

weithdrefn ar gyfer cael cymeradwyaeth o'r fath mor glir ag y dymunid, ac rydym yn argymhell y dylid ei thynhau. **[8-19 i 8-21]**

### **Amrywio caniatâd cynllunio**

- 1.58 Ar hyn o bryd, mae'n bosibl ceisio diwygio caniatâd cynllunio, neu amod a atodir iddo, o dan adran 73 neu 96A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Pennir yr union weithdrefn gan natur a maint y newid a gynigir. Yn y Papur Ymgynghori, awgrymwyd y dylid dwyn y gweithdrefnau hyn ynghyd yn un weithdrefn er mwyn galluogi ymgeisydd i wneud cais i amrywio caniatâd. Fodd bynnag, ar ôl ailystyried, rydym yn argymhell y dylid cadw adran 96A, am ei fod yn rhoi ffordd ddefnyddiol o ymdrin â diwygiadau ansylweddol. Ond dylid diwygio adran 72 i fod yn gymwys i unrhyw ddiwygiad i ganiatâd cynllunio, nid dim ond amodau. **[8-23]**
- 1.59 Rydym hefyd yn argymhell y dylid cyflwyno gweithdrefn gyflymach fel y gall ymgeisydd geisio cymeradwyaeth i amrywio caniatâd unwaith bod y datblygiad wedi dechrau, ond dim ond mewn achosion annadleuol. **[8-25]**

### **Pwyntiau eraill**

- 1.60 Mewn ymateb i nifer o sylwadau gan ymgynghoreion, rydym yn argymhell y dylai fod pŵer penodol i awdurdod wneud penderfyniad rhanedig, gan roi caniatâd ar gyfer rhai agweddau yn unig ar y datblygiad a oedd yn destun cais. Ac, yn ogystal â'r achosion presennol lle mae angen rhesymau, dylai fod yn ofynnol i awdurdod roi rhesymau dros roi caniatâd yn wyneb argymhelliad gan swyddogion i'w wrthod. **[8-30, 8-31]**

## **PENNOD NAW: CEISIADAU I WEINIDOGION CYMRU**

- 1.61 Mae'r darpariaethau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n galluogi gwneud cais cynllunio yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru o fewn ardal awdurdod cynllunio sy'n tangyflawni yn rhai diweddar – a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 – ac nid ydym yn argymhell unrhyw newid. **[9-1]**
- 1.62 Penderfynir ar geisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol gan Weinidogion Cymru yng ngoleuni adroddiad gan arolygydd. Yma hefyd, mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth berthnasol yn ddeddfwriaeth ddiweddar ac maent eto i'w profi'n llawn yn ymarferol; ac nid ydym yn argymhell unrhyw newid heblaw am un neu ddau fanylyn bach **[9-2 i 9-4]**
- 1.63 Cyflwynwyd y gweithdrefnau sy'n caniatáu ar gyfer sefydlu comisiynau ymchwiliadau cynllunio i benderfynu ar gynigion ar gyfer ystyriaethau o bwys mawr neu godi ystyriaethau technegol newydd yn 1968, ac nid ydynt wedi cael eu defnyddio erioed. Rydym yn argymhell y dylid eu diddymu. **[9-5]**

## PENNOD DEG: DARPARU SEILWAITH A GWELLIANNAU ERAILL

### Ardoll Seilwaith Cymunedol

- 1.64 Cyflwynwyd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol gan Ddeddf Cynllunio 2008. Dim ond pan fydd y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Cymru 2017 wedi cael eu dwyn i rym y bydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Yna, mae'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno adolygu ei pholisi ar weithredu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yng Nghymru, ac ymddengys yn gynamserol achub y blaen ar adolygiad o'r fath.
- 1.65 Felly, rydym yn argymhell y dylid ymgorffori'r darpariaethau statudol sy'n ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, ar hyn o bryd yn Rhan 11 o Ddeddf 2008 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011), yn y Bil. **[10-1]**

### Rhwymedigaethau cynllunio

- 1.66 Rydym yn argymhell y dylid ymgorffori darpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio (yn adrannau 106 i 106B) yn y Bil. Dylid hefyd gynnwys y rheolau ynglŷn â diben ymrwymo i rwymedigaeth gynllunio, ar hyn o bryd yn rheoliad 122 o Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010. **[10-2, 10-3]**
- 1.67 Yn y Papur Ymgynghori, awgrymwyd y gallai fod yn ddefnyddiol cyflwyno pŵer sy'n galluogi un cytundeb i weithredu fel rhwymedigaeth gynllunio, o dan adran 106, ac fel cytundeb o dan Ddeddf Priffyrdd 1980. A chynigiwyd dros dro gennym y gellid symleiddio'r broses o orfodi rhwymedigaeth gynllunio drwy gynnwys torri rhwymedigaeth o'r fath yn y diffiniad o dorri rheolaeth gynllunio. Yn y naill achos a'r llall, yng ngoleuni'r pwyntiau a godwyd gan ymgynghoreion, rydym wedi penderfynu peidio â mynd ar drywydd y cynigion ar hyn o bryd, ond rydym yn argymhell y dylent gael eu hystyried mewn unrhyw adolygiad o rwymedigaethau cynllunio yn y dyfodol. **[10-4, 10-5]**
- 1.68 Awgrymwyd gennym hefyd y gallai fod yn ddefnyddiol cyflwyno gweithdrefn yng Nghymru i ddatrys anghydfodau ynghylch telerau rhwymedigaeth gynllunio, yn debyg i'r un a ragwelir gan Atodlen 9A i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, y bwriedir ei chyflwyno yn Lloegr gan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016. A gofynnwyd p'un a ddylai fod modd i Weinidogion Cymru gyfyngu ar orfodadwyedd cymalau penodol mewn rhwymedigaethau, unwaith eto yn unol â Deddf 2016. Yma eto, fe'n darbyllwyd gan ymgynghoreion y byddai'n well ystyried cynigion o'r fath fel rhan o adolygiad cyffredinol o rwymedigaethau cynllunio, ac felly nid ydym yn bwriadu mynd ar drywydd hynny ychwaith. **[10-8, 10-9]**
- 1.69 Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylai fod modd i awdurdod cynllunio rwymo ei dir ei hun drwy rwymedigaeth gynllunio, ac i berson heblaw perchennog y tir (megis darpar brynwr) ymrwymo i rwymedigaeth o'r fath. Ym mhob achos, rydym yn rhoi mwy o fanylion ynglŷn â'r ffordd y gellid cyflawni hyn. **[10-10, 10-11]**

## PENNOD UNARDDEG: APELIADAU A DARPARIAETHAU ATODOL ERAILL

### Apeliadau

- 1.70 Mae Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu bod y rhai sy'n penderfynu ar apêl "*may deal with the application as if it had been made to them in the first instance*". Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r Bil ei gwneud yn glir y byddant bob amser yn ystyried y ceisiadau o'r newydd. Yng ngoleuni sylwadau gan randdeiliaid, ac yn enwedig y rhai gan yr Arolygiaeth, rydym wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r cynnig hwn. **[11-1]**
- 1.71 Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru bennu dosbarthiadau o apeliadau i'w penderfynu gan berson a benodir ganddynt (yn ymarferol, arolygydd). Penderfynir ar y mwyafrif llethol gan arolygwyr. Felly, rydym yn argymhell y dylai'r Bil ddarparu mai arolygwyr sy'n penderfynu ar bob apêl oni ragnodir fel arall gan Weinidogion Cymru – yn hytrach nag i'r gwrthwyneb. **[11-2]**
- 1.72 Rydym hefyd yn argymhell y dylid estyn y pŵer i benodi aseswyr i gynorthwyo arolygwyr i fod yn gymwys i bob apêl, gan gynnwys y rhai y penderfynir arnynt ar sail sylwadau ysgrifenedig. **[11-3]**

### Darpariaethau atodol eraill

- 1.73 Lle y bwriedir cyflwyno hysbysiad prynu ar ôl apêl aflwyddiannus i Weinidogion Cymru yn erbyn penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio, nid yw'n glir pryd mae'r cyfnod o 12 mis i gyflwyno'r hysbysiad yn dechrau. Rydym yn argymhell y dylai'r Bil egluro ei fod yn dechrau o'r penderfyniad ar yr apêl. **[11-5]**
- 1.74 Mae pwerau Gweinidogion Cymru i ddiddymu hawliau tramwy dros briffordd lle mae awdurdod cynllunio yn dymuno ei phedestreddio mewn cysylltiad â'r cynllun i wella'r ardal, o dan adran 249 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn debyg i bŵer awdurdod (ond nid mor helaeth) i bedestreddio ffordd (gan gynnwys ffordd gyhoeddus) o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Felly, rydym yn argymhell na ddylai adrannau 249 a 250 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael eu haildatgan yn y Bil. **[11-8]**

## PENNOD DEUDDEG: DATBLYGU HEB AWDURDOD

- 1.75 Yn y Bennod hon, rydym yn gwneud sawl argymhelliad cymharol fach ynglŷn â diwygiadau technegol i'r weithdrefn, gyda'r nod o wella'r ffordd y mae'r system orfodi yn gweithredu – yn bennaf yng ngoleuni cyfraith achosion berthnasol. Dim ond at rai ohonynt y tynnwn sylw isod.

### Gweithdrefn ragarweiniol

- 1.76 Ar hyn o bryd, mae dwy weithdrefn sy'n galluogi awdurdod cynllunio i gael gwybodaeth ynghylch perchenogaeth tir a'r defnydd a wneir ohono – o dan adrannau 171C a 330 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Rydym yn argymhell y byddai'n well pe bai un weithdrefn, yn arwain at gyflwyno "gorchymyn gwybodaeth gynllunio". **[12-1]**

- 1.77 Mae rhai gweithdrefnau gorfodi yn cael eu haddasu wrth gael eu cymhwysu at “aneddau” – mynediad heb rybudd ymlaen llaw; cyflwyno hysbysiadau stop dros dro a hysbysiadau stop. Rydym yn argymhell y dylai hyn fod yn gymwys mewn perthynas â phob anedd, gan gynnwys fflatiau. **[12-2, 12-5, 12-16]**

### **Hysbysiadau gorfodi**

- 1.78 Rydym yn argymhell y dylai fod modd i hysbysiad gorfodi ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd i gyflawni'r naill ddiben neu'r llall, neu'r ddau, a bennir yn adran 173(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. A dylai fod modd i hysbysiad sy'n ymwneud â newid defnydd heb awdurdod ei gwneud yn ofynnol i waith adeiladu sy'n rhan annatod o newid defnydd gael ei ddymchwel. **[12-9, 12-10]**
- 1.79 Ar hyn o bryd, tybir bod apelydd sy'n apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi ar sail (a) (y dylid rhoi caniatâd ar gyfer y datblygiad yr honnir nad yw wedi cael awdurdod) wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio. Yn ein barn ni, nid oes unrhyw ddiben i'r cyfeiriad hwn at gais cynllunio tybiedig. Rydym yn argymhell y caiff Gweinidogion Cymru, wrth benderfynu ar apel ar sail (a), roi caniatâd cynllunio, neu ddiddymu'r amod dan sylw, neu roi tystysgrif cyfreithlondeb, fel y bo'n briodol. **[12-12]**

### **Hysbysiadau stop**

- 1.80 Ar hyn o bryd, caiff hysbysiad stop ei “gyflwyno” i'r rhai sy'n gyfrifol. Rydym yn argymhell, fel yn achos hysbysiad gorfodi, y dylai awdurdod cynllunio “gyhoeddi” hysbysiad stop, a fyddai'n dod i rym ar y dyddiad a nodir ynddo; yna, gellid cyflwyno copïau fel y bo'n briodol. Yna, byddai trosedd sy'n ymwneud â pheidio â chydymffurfio â hysbysiad stop yn ymwneud â hysbysiad sydd wedi dod i rym, yn hytrach nag un sydd wedi cael ei gyflwyno. **[12-17, 12-18]**

### **Cosbau troseddol**

- 1.81 Rydym wedi adolygu'r cosbau am y gwahanol droseddau a grewyd gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac yn argymhell y dylid eu gwneud yn fwy cyson. Dylid rhoi dirwy, yn hytrach na dedfryd o garchar, am y drosedd o ddarparu gwybodaeth anwir mewn ymateb i gais. Dylai methiant i gydymffurfio â hysbysiad torri amodau, neu adfer adeilad [etc] heb awdurdod ar ôl cydymffurfio â hysbysiad gorfodi, arwain at dreial naill ai gerbron ynadon neu yn Llys y Goron, ac (yn y naill achos a'r llall) ar ôl collfarn dylai fod cosb o ddirwy o unrhyw swm. **[12-24, 12-25]**

## **PENNOD UN DEG TRI: GWAITH SY'N EFFEITHIO AR ADEILADAU RHESTREDIG AC ARDALOEDD CADWRAETH**

### **Caniatadau sy'n gorgyffwrdd**

- 1.82 Ar hyn o bryd, mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer rhai datblygiadau sy'n effeithio ar adeilad rhestredig, mae angen cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer rhai datblygiadau, ac mae angen y ddau ar gyfer datblygiadau eraill. Mewn rhai achosion, mae terfynau datblygu a ganiateir drwy orchymyn datblygu yn wahanol yn achos gwaith sy'n effeithio ar adeilad rhestredig. Mae angen caniatâd cynllunio a chydysyniad ardal gadwraeth i ddymchwel adeilad heb ei restru mewn ardal gadwraeth, ond rhoddir caniatâd cynllunio yn awtomatig (drwy orchymyn datblygu).

Gall penderfynu pa fathau o gymeradwyaeth sydd eu hangen ar gyfer unrhyw gynnis penodol fod yn hynod gymhleth.

- 1.83 Pan fo angen dau fath o ganiatâd, bydd hynny'n gofyn am ddau gais, dau adroddiad pwyllgor, dau benderfyniad (ond mae'r porth ar-lein yn cydnabod y broblem, ac yn caniatáu un cais cyfansawdd); a, lle y bo'n briodol, dwy apêl, dau benderfyniad apêl, dau hysbysiad gorfodi, dwy apêl gorfodi, ac unwaith eto ddau benderfyniad apêl. Fel arfer, caiff y ddau ganiatâd eu rhoi, neu caiff y ddau eu gwrthod. Mae penderfyniadau rhanedig yn bosibl, ond yn brin.
- 1.84 Bydd yr un ystyriaethau polisi yn sail i'r ddau fath o benderfyniadau – y ddyletswydd i warchod yr adeilad rhestredig, a'r ddyletswydd i warchod a gwella'r ardal gadwraeth; y cynllun datblygu; a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill.
- 1.85 O ystyried y gorgyffwrdd sylweddol rhwng y gwahanol ganiatadau, awgrymwyd yn y Papur Cwmpasu y gallai fod yn werth eu huno'n un math o gymeradwyaeth. Yn y Papur Ymgynghori ystyriwyd nifer o opsiynau, o ddim newid – cadw caniatâd cynllunio, cydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth, fel sydd ar hyn o bryd – i uno'r tri chaniatâd yn un.
- 1.86 Bu cryn wrthwynebiad, yn enwedig o fewn y sector treftadaeth, i'r syniad o gollu caniatâd adeilad rhestredig. Trafodwn y mater, a safbwyntiau ymgynghoreion, yn fanwl ym Mhennod 13. Am y rhesymau a roddwn yn y bennod honno, at ei gilydd, rydym o'r farn y byddai uno'r caniatadau yn symleiddio'r ddeddfwriaeth gryn dipyn ac na fyddai'n arwain at gollu unrhyw reolaeth, na cholli arbenigedd. Fel y nodir ym mharagraff 1.26 uchod, rydym hefyd yn argymhell y dylid cryfhau'r ddyletswydd gyffredinol i roi sylw i ddymunoldeb gwarchod adeiladau rhestredig. Felly, rydym yn argymhell y dylid uno cydsyniad adeilad rhestredig â chaniatâd cynllunio, drwy estyn y diffiniad o "datblygu" i gynnwys unrhyw waith sy'n effeithio ar gymeriad arbennig adeilad rhestredig. **[13-1A]**
- 1.87 Bu cryn dipyn yn fwy o gefnogaeth i uno cydsyniad ardal gadwraeth â chaniatâd cynllunio nag uno cydsyniad adeilad rhestredig â chaniatâd cynllunio. Fel arfer, bydd angen cydsyniad ardal gadwraeth a chaniatâd cynllunio i ddymchwel adeilad mewn ardal gadwraeth (yn ogystal â chaniatâd cynllunio ar gyfer yr adeilad newydd sy'n dilyn). Rydym yn argymhell mai dim ond caniatâd cynllunio y bydd ei angen i ddymchwel adeilad. **[13-1B]**

### **Pwyntiau manwl**

- 1.88 Rydym yn argymhell na ddylai fod modd i orchymyn datblygu roi caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith ar adeiladau rhestredig; ond y dylai fod modd i gytundebau partneriaeth treftadaeth wneud hynny. Rydym hefyd yn argymhell y dylai tystysgrifau cyfreithlondeb fod ar gael ar gyfer gwaith lle mae angen cydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth yn unig. **[13-2 i 13-4]**
- 1.89 Rydym yn argymhell ymhellach y dylai seiliau apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio gael eu diwygio, i gynnwys y seiliau penodol presennol sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. **[13-5]**

## Gwaith heb awdurdod

- 1.90 Rydym yn argymhell y dylai gwaith heb awdurdod ar adeiladau rhestredig a dymchwel heb awdurdod mewn ardal gadwraeth barhau i fod yn drosedd, fel y mae ar hyn o bryd – gyda'r un cosbau ac amddiffyniadau â'r troseddau presennol cyfatebol o dan y Ddeddf Adeiladau Rhestredig. **[13-6]**
- 1.91 Yn yr un modd, rydym yn argymhell na ddylai'r terfynau amser ar gyfer cymryd camau gorfodi fod yn gymwys yn achos gwaith heb awdurdod ar adeiladau rhestredig a dymchwel heb awdurdod mewn ardal gadwraeth, ac y dylai seiliau apelio yn erbyn hysbysiadau gorfodi gael eu diwygio i gynnwys y seiliau penodol presennol sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. **[13-7, 13-8]**

## Pwyntiau eraill

- 1.92 Nid ydym yn argymhell y dylid uno cydsyniad heneb gofrestredig â chaniatâd cynllunio, gan fod yr awdurdod sy'n rhoi caniatâd yn wahanol, ac mai anaml y bydd y gwaith dan sylw yn gorgyffwrdd â'r hyn y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer. **[13-9]**
- 1.93 Nid yw'r gyfraith ynghylch y graddau y mae'r diogelwch a gynigir drwy restru (yn adran 1(5) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig 1990 ar hyn o bryd) yn glir mewn perthynas â gwrthrychau a strwythurau yng nghwrttil adeilad sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr. Rydym yn argymhell y dylid ei nodi'n glir y dylai gwrthrychau a strwythurau cyn 1948 gael eu cynnwys os oeddent yng nghwrttil yr adeilad yn y rhestr fel ag yr oedd ar 1 Ionawr 1969 neu, os cafodd yr adeilad ei restru ar ôl y dyddiad hwnnw, os oeddent yng nghwrttil yr adeilad ar y dyddiad y'i rhestrwyd. **[13-10]**
- 1.94 Cyflwynwyd ardaloedd o bwys archaeolegol yn 1979; a chafodd pump eu dynodi yn 1984, pob un yn Lloegr. Nid ydynt erioed wedi cael eu defnyddio yng Nghymru. Rydym yn argymhell y dylid diddymu'r pŵer i'w dynodi. **[13-11]**

## PENNOD UN DEG PEDWAR: HYSBYSEBION AWYR AGORED

### Diffiniadau

- 1.95 Mae'r diffiniad o hysbyseb yn adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn anfoddfaol – yn bennaf am ei fod yn gylchog. Rydym yn argymhell y dylid ei wneud yn fwy eglur. Rydym hefyd yn argymhell y dylid defnyddio'r gair "tir" yn lle "safle", gyda'r Bil a'r Rheoliadau lle y bo'n briodol yn cael eu drafftio i gyfeirio at hysbyseb sy'n cael ei harddangos "ar" dir. Dylid rhoi diffiniad cliriach o berson sy'n arddangos hysbyseb. A dylai'r diffiniadau hyn gael eu cynnwys yn y Bil ochr yn ochr â'r darpariaethau eraill sy'n ymwneud â hysbysebu. **[14-1 i 14-4]**

### Caniatâd tybiedig

- 1.96 Gan fod rheoli hysbysebion yn ddarostyngedig i reoliadau, yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol, yn bennaf, rydym hefyd wedi cynnwys rhai argymhellion ar gyfer newidiadau i'w cyflwyno pan gaiff y rheoliadau eu diweddarau nesaf.
- 1.97 Rydym yn argymhell dros dro y dylid tynhau'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â hysbysiadau dirwyn i ben, gan ddileu'r caniatâd tybiedig ar gyfer hysbysebion penodol, fel y bydd hysbysiad o'r fath yn cael ei "gyhoeddi" gan yr awdurdod, gyda

chopïau'n cael eu "cyflwyno" i'r rhai y tybir eu bod yn arddangos yr hysbyseb, ac y daw i rym ar ddyddiad a nodir ynddo, Byddai hyn yn sicrhau bod gweithdrefnau o'r fath yn unol â'r rhai sy'n ymwneud â hysbysiadau gorfodi. **[14-5]**

- 1.98 Rydym yn argymhell y dylai caniatâd tybiedig gael ei roi ar gyfer arddangos hysbysebion sydd wedi cael caniatâd cynllunio (megis ffascgia siop) – er mwyn osgoi bod angen dwy gymeradwyaeth. Rydym hefyd yn argymhell y dylai arddangos hysbyseb ar y tu allan i gerbyd nad yw ar briffordd (neu un disymud ar briffordd am fwy nag 21 diwrnod) gael ei gynnwys o fewn cwmpas y rheoliadau, ac y dylai fel arfer gael caniatâd tybiedig, er mwyn galluogi awdurdodau cynllunio i reoli mathau penodol o arddangos. **[14-7, 14-8]**
- 1.99 Rydym yn argymhell y dylai fod gweithdrefn, yn debyg i wneud cais am dystysgrif cyfreithlondeb datblygiad presennol neu arfaethedig, fel y gall unrhyw un ddarganfod p'un a yw neu a fyddai arddangos hysbysebion penodol yn gyfreithlon. Ac rydym yn argymhell y dylid rhoi caniatâd tybiedig ar gyfer hysbyseb ar dir sydd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer hysbysebion ers deng mlynedd – yn hytrach nag ar gyfer hysbyseb ar safle sydd wedi cael ei ddefnyddio ers 1974, fel ar hyn o bryd. **[14-9, 14-10]**

### **Hysbysebion heb awdurdod**

- 1.100 Ar hyn o bryd, ceir pŵer i dynnu poster neu hysbyslen heb awdurdod, o dan adran 225 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ond nid yr hysbysfwrdd na'r strwythur y mae'n cael ei arddangos neu ei harddangos arno (ac eithrio o dan Ddeddf Dyfed 1987). Rydym yn argymhell y dylid cyflwyno gweithdrefn newydd, sy'n cyfateb i'r un sydd ar gael ar hyn o bryd yn Nyfed, gan ei gwneud yn bosibl i dynnu hysbyseb heb awdurdod unrhyw le yng Nghymru. **[14-12]**
- 1.101 O ystyried pa mor hawdd y gellir gosod a thynnu hysbysebion, ac yng ngoleuni'r enillion sylweddol y gellir eu cael o hysbysebion heb awdurdod, rydym yn argymhell y dylid cynyddu'r ddeddfryd fwyaf ar ôl collfarn am hysbysebion heb awdurdod i ddirwy ddiderfyn **[14-13]**

## **PENNOD UN DEG PUMP: COED A CHOETIROEDD A WARCHODIR**

### **Gwneud gorchmynion diogelu coed**

- 1.102 Gellir gwneud gorchmynion diogelu coed i ddiogelu coed a choetiroedd er mwyn amwynder. Down i'r casgliad na fyddai'n fuddiol cynnwys diffiniad o "coed" na "coetir" yn y Bil yn y cyd-destun hwn; ond y byddai'n fuddiol egluro bod "amwynder" yn cynnwys ymddangosiad, oedran, natur brin, bioamrywiaeth a gwerth hanesyddol, gwyddonol a hamddenol. **[15-1, 15-2]**
- 1.103 Rydym yn argymhell y dylai'r Bil (yn ogystal â'r rheoliadau) ei nodi'n glir y gall gorchmyn diogelu coed ddiogelu coed a nodir yn unigol neu drwy gyfeirio at grŵp o goed neu ardal. Mae gorchmyn ardal yn un sy'n diogelu coed, ni waeth beth fo'u rhywogaeth, unrhyw le mewn ardal benodedig – ac fel arfer caiff ei ddefnyddio i ddiogelu coed mewn parcdir agored neu i ddiogelu coed dros dro ar safle datblygiad mawr. Fodd bynnag, gall y defnydd o orchmynion ardal, ac eithrio yn y byrdymor,



achosi problemau; ac felly rydym yn argymell, pan gaiff gorchymyn ardal ei gadarnhau, y dylai gael ei droi'n orchymyn unigol, yn orchymyn grŵp neu'n orchymyn coetir. Rydym yn argymell y dylai'r canllawiau bwysleisio dymunoldeb troi gorchymynion ardal presennol yn rhai unigol, grŵp neu goetir; ond nid ydym yn argymell y dylai gorchymynion ardal, os na chânt eu troi, beidio â bod mewn grym. **[15-3]**

- 1.104 Rydym hefyd yn argymell y dylai fod modd i orchymynion diogelu coetir, yn hytrach na gorchymynion diogelu coed, ddiogelu coetiroedd – gan gynnwys coed a blannwyd neu a hunanhadwyd ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud gyntaf. **[15-3]**

### Angen am ganiatâd

- 1.105 Mae'r system newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 (lle mae'r manylion ynglŷn â'r angen am ganiatâd ar gyfer gwaith ar goed a ddiogelir drwy orchymyn, a'r gweithdrefnau ar gyfer ceisio caniatâd o'r fath, wedi'i chynnwys mewn rheoliadau yn hytrach nag yn y gorchymyn ei hun) ac nid yw wedi'i dwyn i rym yng Nghymru eto. Rydym yn cymryd yn ganiataol y caiff ei dwyn i rym.
- 1.106 Nid oes angen caniatâd ar hyn o bryd ar gyfer gwaith ar goed a warchodir sy'n marw neu sydd wedi marw neu sydd wedi mynd yn beryglus. Gall coed sydd wedi marw ac sy'n marw yn aml barhau i gynnig cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt; ac mae categorieiddio coeden fel un beryglus yn agored i gael ei gamddefnyddio. Rydym yn argymell mai dim ond pan fo angen gwneud gwaith ar frys er mwyn cael gwared ar risg uniongyrchol o niwed difrifol y dylai'r eithriad rhag caniatâd fod yn gymwys. **[15-6]**
- 1.107 Nid oes angen caniatâd i wneud gwaith ar goeden a warchodir pan fo angen gwneud y gwaith er mwyn atal neu liniaru niwsans. Mae cwmpas yr eithriad hwn yn aneglur – yn enwedig p'un a yw'n gymwys pan fo coeden ond yn tyfu i mewn i bridd neu ofod awyr cyfagos. Rydym yn argymell y byddai'n well pe bai'r eithriad yn cael ei ddileu'n gyfan gwbl. **[15-7]**
- 1.108 Awgrymwyd gennym yn y Papur Ymgynghori y dylai fod modd gwneud gwaith ar goeden ifanc nad yw'n fwy na maint penodol heb ganiatâd, oni fydd wedi'i phlannu o ganlyniad i hysbysiad cyfnewid coed neu amod cynllunio. Mewn ymateb i bwyntiau a wnaed gan y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r awgrym hwn, nid ydym wedi mynd ar drywydd hyn. **[15-8]**
- 1.109 Rydym yn argymell y dylai fod gweithdrefn, yn debyg i wneud cais am dystysgrif cyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad arfaethedig, fel y gall unrhyw un ddarganfod p'un a fyddai gwaith penodol ar goeden yn gyfreithlon. **[15-9]**

### Coed cyfnewid

- 1.110 Rydym yn argymell, pan fo coeden a warchodir wedi cael ei chwmpo'n anghyfreithlon, neu ei gwaredu am ei bod wedi marw, yn marw neu'n beryglus, a bod yn rhaid plannu coeden yn ei lle, y dylai fod yn ddigonol plannu'r goeden newydd yn neu wrth ymyl lleoliad y goeden sy'n cael ei gwaredu – yn hytrach nag yn yr union lleoliad fel ag y mae ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn argymell, pan fo bwriad i waredu coed mewn coetir, y dylai'r gofyniad i blannu gael ei fynegi naill ai drwy gyfeirio at nifer y coed i'w gwaredu neu at ardal y coetir i'w hailblannu. **[15-11]**

## Gwaith heb awdurdod

- 1.111 Ar hyn o bryd, mae'n drosedd (o dan adran 210(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) i ddinistrio coeden yn fwriadus, neu ei difrodi'n fwriadus fel y bydd hynny'n debygol o'i dinistrio. Rydym yn argymhell y dylid newid y geiriad i gyfeirio at ddinistrio neu ddifrodi "bwriadol neu ddi-hid", fel y bydd yn gymwys yn achos difrodi di-hid neu anuniongyrchol, megis palu ffosydd ar gyfer pibellau a cheblau, defnyddio cemegion niweidiol, newid lefelau pridd neu bori anifeiliaid mewn coetiroedd. **[15-14]**
- 1.112 Ar hyn o bryd, mae dwy drosedd o dan adran 210 – gwaith sy'n arwain at farwolaeth coeden (a 210(1)) a gwaith arall (a 210(4)). Rydym yn argymhell y byddai'n symlach, gan arwain at lai o gyfle i gamddefnyddio, pe bai un drosedd, sy'n gymwys mewn unrhyw achos o dorri gorchymyn diogelu (neu reoliadau diogelu coed o dan y system newydd) – gyda'r ddeddfryd yn amrywio yn unol â difrifoldeb y drosedd. Rydym hefyd yn argymhell y dylai fod yn rhaid i'r erlyniad profi bod y gorchymyn wedi cael ei gyflwyno i'r cyhuddedig, neu ei fod ar gael i'w weld gan y cyhoedd; ac y dylai'r gorchymyn gofnodi'r dyddiad yr oedd ar gael i'w weld gan y cyhoedd gyntaf. **[15-15, 15-16]**

## Coed mewn ardaloedd cadwraeth

- 1.113 Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i berson sy'n gwneud gwaith ar goeden mewn ardal gadwraeth roi rhybudd o chwe wythnos i'r awdurdod cynllunio. Yna, gall yr awdurdod osod gorchymyn diogelu coed, os dymuna; os bydd yn gwneud hynny, yna mae'n rhaid i'r ymgeisydd geisio caniatâd o dan y gorchymyn. Rydym yn argymhell y dylid symleiddio hyn drwy alluogi'r awdurdod i ganiatáu'r gwaith, yn ddarostyngedig i amod o bosibl, neu osod gorchymyn diogelu coed, heb fod angen ail gais. **[15-17]**

## PENNOD UN DEG CHWECH: GWELLA, ADFYWIO AC ADNEWYDDU

### Tir ac adeiladau blêr y golwg

- 1.114 Mae'n bosibl i awdurdod cynllunio gyflwyno hysbysiad o dan adran 215 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i wella tir (gan gynnwys adeiladau). Rydym yn argymhell y dylid gwneud y gyfraith yn fwy eglur drwy nodi'n glir mai dim ond pan fo tir yn flêr y golwg ac nad yw hynny'n codi yn ystod defnydd cyfreithlon arferol o'r tir y gellir cyhoeddi hysbysiad. Rydym hefyd yn argymhell na ellir cyflwyno hysbysiad o dan adran 215 pan fo cyflwr y tir yn deillio o waredu gwastraff yn anghyfreithlon (y gellir ymdrin ag ef o dan bwerau yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990). **[16-1]**
- 1.115 Rydym yn argymhell mai arolygwyr ddylai benderfynu ar apeliadau yn erbyn hysbysiadau o'r fath fel arfer. **[16-4]**
- 1.116 Ochr yn ochr â'r weithdrefn yn adran 215, mae gweithdrefn o dan adran 89 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 hefyd, lle y gall awdurdod wneud gwaith adfer ar unrhyw dir blêr y golwg, a gall wneud gwaith tirlunio ar unrhyw dir; a gall gaffael y tir os oes angen. Rydym yn argymhell y dylid cynnwys hyn yn y Bil newydd. Rydym hefyd yn argymhell y dylai fod pŵer newydd sy'n galluogi awdurdod i weithredu pan na fo'r perchennog yn hysbys neu pan na ellir cysylltu â'r perchennog – ond mai dim ond pan fo'n dymuno gwneud gwaith i adfer tir mewn cyflwr gwael y

dylai'r pŵer caffael gorfodol fod yn gymwys, ac nid pan fo'n dymuno gwneud gwaith gwella ar dir sydd eisoes mewn cyflwr rhesymol (oni ellir olrhain y perchennog). **[16-5, 16-6]**

### **Graffiti a gosod posterï'n anghyfreithlon**

1.117 Arferai fod darpariaethau penodol i alluogi awdurdodau cynllunio yng Nghymru i ymdrin â graffiti a gosod posterï'n anghyfreithlon. Rydym yn argymhell y dylai'r rhain gael eu hadfer, er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n galluogi awdurdodau cynllunio i gymryd camau priodol i sicrhau bod graffiti blêr neu dramgwyddus yn cael ei waredu ac i ymdrin â hysbysebu mynych heb awdurdod, ac sy'n galluogi cynghorau cymuned i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig mewn achosion priodol. **[16-7]**

### **Mentrau ar sail ardal**

1.118 Cyflwynwyd ardaloedd menter yn Neddf Llywodraeth, Cynllunio a Thir 1980. Cafodd pedwar gorchymyn eu gwneud ar ddechrau'r 1980au, yn dynodi ardaloedd yn Abertawe ac Aberdaugleddau; gyda'r naill a'r llall yn para am ddeng mlynedd. Nid oes unrhyw orchmynion eraill wedi cael eu gwneud. Yna, cafodd math newydd o "ardal fenter" ei gyflwyno yn Neddf Cyllid 2012. Rydym yn argymhell y dylai'r system o ardaloedd menter a sefydlwyd o dan Ddeddf 1980 gael ei diddymu yng Nghymru (gan adael y system o ardaloedd menter o dan Ddeddf 2012 yn ei lle). **[16-8]**

1.119 Cafodd corfforaethau datblygu tref newydd yng Nghwibrân a'r Drenewydd (Powys) eu dynodi o dan Ddeddf Trefi Newydd 1949; cafodd y naill a'r llall eu dirwyn i ben i bob diben yn yr 1980au. Dim ond un gorfforaeth datblygu trefol a ddynodwyd erioed yng Nghymru (ym Mae Caerdydd) o dan Ddeddf 1980; cafodd ei ddiddymu yn 2000. Nid oes unrhyw ymddiriedolaethau gweithredu tai erioed wedi cael eu dynodi yng Nghymru o dan Ddeddf Tai 1988. Cynigiwyd un bwrdd datblygu gwledig, yn y canolbarth, ar ddiwedd y 1960au; ond ni sefydlwyd yr un. Rydym yn argymhell y dylid diddymu pob un o'r cynlluniau hyn. **[16-9 i 16-12]**

### **Caffael tir at ddibenion cynllunio**

1.120 Yn y Papur Ymgynghori, awgrymwyd na fyddai'n briodol cynnwys darpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ymwneud â chaffael tir at ddibenion cynllunio. Fodd bynnag, ar ôl ailystyried, rydym o'r farn y byddai'n beth syml ymgorffori Rhan 9 (heblaw am adran 231), ac adrannau 251, 258 a 271 i 282 – heb unrhyw ddiwygiadau ac eithrio'r arddull drafftio. Y fantais yw y byddai Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ei chyfanrwydd, ac nid dim ond y rhan fwyaf ohoni, yn gymwys i Loegr yn unig. Byddai hynny'n golygu y byddai'n llawer symlach drafftio diwygiadau i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yn bwysicach na hynny, bydd defnyddwyr y ddeddfwriaeth, ar y naill ochr a'r llall i'r ffin, yn gwybod, yn y dyfodol, y bydd ond angen cyfeirio at un darn o ddeddfwriaeth. **[16-13, 16-14]**

### **PENNOD UN DEG SAITH: HERIAU YN YR UCHEL LYS**

1.121 Mae Rhan 12 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu ar gyfer heriau yn yr Uchel Lys ynglŷn â dilysrwydd gorchmynion a phenderfyniadau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiol orchmynion gan awdurdodau cynllunio, a chynlluniau

datblygu lleol neu strategol; yn ogystal â'r rhan fwyaf o benderfyniadau Gweinidogion Cymru, gan gynnwys mewn ymateb i geisiadau y maent yn penderfynu arnynt (ar gyfer datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol, neu ar ôl i gais gael ei alw i mewn) ac apeliadau.

- 1.122 Mae'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno her yn yr Uchel Lys o dan Ran 12 wedi bod yn chwe wythnos i'r dyddiad yr heriwyd y penderfyniad (neu bedair wythnos yn achos penderfyniadau penodol sy'n ymwneud ag apeliadau gorfodi) erioed. Arferai fod hawl awtomatig i gychwyn her o'r fath; ond mae angen caniatâd y llys bellach (ers i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 ddod i rym).
- 1.123 Dim ond drwy gais am adolygiad barnwrol, o dan Ran 54 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil y gellir herio penderfyniadau eraill, yn benodol penderfyniadau awdurdodau cynllunio i roi caniatâd cynllunio. Dim ond gyda chaniatâd y Llys y gellir cyflwyno her o'r fath. Y terfyn amser roedd yn rhaid ceisio caniatâd oddi mewn iddo oedd "promptly, and in any event within three months"; ers 2016, y terfyn amser yw chwe wythnos.
- 1.124 Ychydig iawn o Ddeddfau eraill sy'n cynnwys gweithdrefnau herio arbennig sy'n cyfateb i'r rhai yn Rhan 12 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Ac mae'r weithdrefn o dan Ran 12 fwy neu lai yr un fath â'r hyn a geir o dan Ran 54 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil – yn enwedig o ran terfynau amser a'r angen am ganiatâd y Llys.
- 1.125 Felly, rydym yn argymhell na ddylid ailddatgan Rhan 12 yn y Bil newydd, felly bydd yn rhaid i bob her yn yr Uchel Lys yn y dyfodol gael ei chyflwyno drwy gais am adolygiad barnwrol o dan Ran 54 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil. **[17-1]**

## **PENNOD DEUNAW: DARPARIAETHAU AMRYWIOL AC ATODOL**

- 1.126 Mae'r Bennod olaf o'r Papur Ymgynghori yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â'r Bil cyfan, a'r ffordd y'i cymhwysir mewn sefyllfaoedd penodol.

### **Ymgwymerwyr statudol**

- 1.127 Mae Rhan 11 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn ymdrin â sefyllfa arbennig ymgwymerwyr statudol – hynny yw, yn fras, cyrff sy'n darparu amrywiol wasanaethau cyhoeddus – mewn perthynas â chyfraith cynllunio. Mae amrywiol ddiffiniadau o "statutory undertaker" yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Ni fyddai unrhyw ddiwygiadau yn y maes hwn yn bosibl pe baent yn ymwneud â newid deddfwriaeth y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, yn amodol ar hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Bil resymoli, hyd y gellir, y categorïau o gyrff sydd i'w trin fel ymgwymerwyr statudol, ac egluro ym mhob achos yr hyn a ystyrir yn dir gweithredol a phwy yw'r Gweinidog priodol. **[18-1]**

### **Mwynau**

- 1.128 Yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ceir cyfres o ddiffiniadau o "minerals", "the winning and working of minerals", a "mining operations" sy'n cyd-blethu â'i gilydd. Rydym yn argymhell y dylid rhesymoli'r rhain hyd y gellir. **[18-5]**

- 1.129 Cydnabuwyd ers amser maith bod gweithio mwynau yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad mewn nifer o ffyrdd. O ganlyniad, mae cyfraith cynllunio a gweithdrefnau ar gyfer datblygiadau o'r fath wedi newid sawl gwaith dros y blynyddoedd. Dros dro, rydym o'r farn nad oes angen ailddatgan y darpariaethau arbennig ynglŷn â chaniatadau mwynau a roddwyd cyn 22 Chwefror 1982 (yn Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 ac Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995) yn y Bil, ond y dylent aros fel y maent. Fodd bynnag, dylid cynnwys y darpariaethau arbennig sy'n ymwneud â chaniatadau mwy diweddar (yn Atodlen 14 i Ddeddf 1995 ac Atodlen 9 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990). **[18-6, 18-7]**

### **Ffioedd**

- 1.130 Mae nifer gynyddol o sefyllfaoedd lle y gall Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cynllunio godi ffi am gyflawni swyddogaethau cynllunio. Rydym yn argymhell y dylai'r Bil gynnwys pŵer sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio graddfa'r ffioedd sy'n ymwneud â chyflawni unrhyw swyddogaethau o'r fath, drwy gyhoeddi'r raddfa newydd yn hytrach na'i phennu mewn rheoliadau – ar y ddealltwriaeth na fydd incwm o'r ffioedd a godir felly yn fwy na chost cyflawni'r swyddogaeth dan sylw. **[18-9]**

### **Ymchwiliadau, gwrandawiadau a gweithrediadau eraill**

- 1.131 Mae'r egwyddorion lle mae gan bartion mewn ymchwiliadau a gweithrediadau eraill yr hawl i hawlio eu costau wedi ymsefydlu dros flynyddoedd lawer. Yn gryno, mae'n rhaid i'r parti sy'n hawlio costau allu dangos bod ymddygiad afresymol y parti sy'n gwrthwynebu wedi peri iddo fynd i gostau diangen. Rydym yn argymhell y dylai'r egwyddor hon gael ei chynnwys yn y Bil. **[18-12]**

### **Diffiniadau**

- 1.132 Mae'r term "dwellinghouse" yn cael ei ddefnyddio mewn amrywiol gyd-destunau, a cheir sawl diffiniad statudol gwahanol, sy'n anghyson ac sy'n gwrthddweud ei gilydd weithiau o ran p'un a ydynt yn cynnwys fflat. Rydym yn argymhell y dylai'r gair gael ei ddisodli gan y term "annedd", a fydd wedi'i ddiffinio i gynnwys tŷ a fflat (a thrwy oblygiad, unrhyw fathau eraill o annedd, megis fflatiau deulawr, cychod preswyl ac iwrtau). **[18-15]**
- 1.133 "Cwrttil" yw gair arall nad yw'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin, ac nad oes cyfystyr amlwg ar ei gyfer. Rydym yn argymhell y dylai cwrttil adeilad gael ei ddiffinio fel tir sydd â chysylltiad agos ag ef, ac y dylai'r cwestiwn p'un a yw strwythur o fewn cwrttil adeilad gael ei benderfynu drwy roi sylw i ddiwyg ffisegol yr adeilad, y strwythur a'r adeiladau a'r tir o'i amgylch; perchenogaeth o'r adeilad a'r strwythur yn y gorffennol a'r presennol; a'u swyddogaeth a'r defnydd a wneir neu a wnaed ohono, yn y gorffennol a'r presennol. **[18-16]**
- 1.134 Rydym hefyd yn argymhell y dylid rhesymoli a symleiddio'r diffiniadau o "agriculture", "agricultural land" ac "agricultural unit". **[18-17]**

